



Yr Holocost a Chymru Kindertransport 2

Y daith i Brydain

Crëwyd gan y Ganolfan Astudio
Symudedd Pobl (CASP) ym
Mhrfysgol Aberystwyth



Crëwyd mewn partneriaeth rhwng CASP a Chymdeithas
Hanes Iddewig De Cymru (CHIDC) a'i ariannu gan
Gymdeithas y Ffoaduriaid Iddewig (AJR)



Yr Holocost a Chymru

Kindertransport 2

Y daith i Brydain

Adnodd 2 o 4 yw hwn ar destun Kindertransport a gellir ei ddefnyddio ochr yn ochr â'r 3 adnodd arall. Mae'r adnoddau'n archwilio hanesion plant a oedd yn ffoaduriaid a ddaeth ar y Kindertransport i Gymru.

Mae'r ail adnodd hon yn archwilio taith Kindertransport merch ifanc o Awstria, Dorothy Fleming. Mi wnaeth hi'r siwrnai hori i Brydain ym 1939 cyn ymgartrefu, yn y bon, gyda'i theulu yng Nghaerdydd.

Mae'n cynnwys:

- Gwybodaeth gefndir am y Kindertransport a ble i ddarganfod mwy
- Diffiniad defnyddiol a fideo: 'Pwy sy'n Foadur?'
- Bywgraffiad byr o Dorothy Fleming
- Dolen at glip sain o recordiad hanes llafar o Dorothy Fleming
- Ffotograffau yn dangos plant sy'n ffoaduriaid yn y 1930au
- Trawsgrifiadau o'r clipiau fideo a sain

Mae'r adnodd yn rhagdybio dealltwriaeth sylfaenol o'r Holocost. Efallai y byddwch am gyflwyno taflen waith Ymddiriedolaeth Addysgol yr Holocost (HET), ['Diffinio'r Holocost'](#), cyn archwilio'r adnoddau hyn. Gweler hefyd [Egwyddorion Cyffredinol HET ynglŷn ag Addysgu am yr Holocost](#).



Gwybodaeth gefndir am y Kindertransport

Cyn gynted ag y daeth Adolf Hitler a'r Natsïaid i rym yn yr Almaen ym mis Ionawr 1933, dechreuwyd erlid eu gwrthwynebwyd gwleidyddol a thrigolion Iddewig. Ceisiodd llawer ohonynt ddianc rhag yr erledigaeth hon trwy ffoi, ond ychydig o wledydd o gwmpas y byd oedd yn fodlon eu derbyn.

Gwaethygodd y sefyllfa yn sgil y pogrom mis Tachwedd (Kristallnacht) a chyfeddiant yr Almaen o Awstria a Tsiecoslofacia ym 1938 a 1939. I lawer, 'roedd y rhybudd bellach yn glir. O 1933-39, bu 400,000 o ffoaduriaid yn ffoi rhag y Drydedd Reich.

'Roedd 'na reolau llym ynglyn â mynediad i'r DU. Dim ond i'r ffoaduriaid hynny oedd â'r posibilrwydd o ymfudo'n barhaol i rywle arall, neu yr ystyrid bod eu presenoldeb yn fanteisiol i'r DU y rhoddwyd fisâu. Roedd rhai'n cael dod i'r wlad trwy gymorth perthnasau, ffrindiau neu elusennau. Erbyn mis Medi 1939, 'roedd tua 78,000 o ffoaduriaid o Ganol Ewrop yn byw yn y DU, ac 'roedd 12,000 ychwanegol wedi cyrraedd ac ail-ymfudo. 'Roedd tua 90% o'r ffoaduriaid hyn yn Iddewig, a mwy na thebyg daeth tua 2,000 ohonynt i Gymru. Ar ddechrau'r rhyfel, daeth mewnfudiad o Reich yr Almaen i ben i bob pwrpas.

Wrth ffoi ledled Ewrop i ddianc rhag y Natsïaid, cyrhaeddodd tua 10,000 o blant Iddewig Brydain Fawr rhwng Rhagfyr 1938 a Medi 1939 ar Kindertransport (Trafnidiaeth Plant). Cynllun hepgor fisa oedd hwn ar gyfer plant a oedd yn cael eu herlid am fod yn Iddewig yn Reich yr Almaen ac roedd yn ymateb i bwysau cyhoeddus ar ôl pogrom Tachwedd. Roedd yn rhaid i blant gael eu gwarantu gan flaendal o £50 gan noddwr (e.e. unigolion, y gymuned Iddewig, grwpiau eglwysig, cwmnïau cydweithredol gweithwyr), a oedd yn talu am eu cynhaliaeth hyd at ddeunaw oed – dros £4,000 mewn arian heddiw.



Dim ond plant dan oed ar eu pen eu hunain a dderbyniodd llywodraeth Prydain trwy'r cynllun hwn, er bod y rhan fwyaf ohonyn nhw'n byw gyda'u rhieni ac aelodau eraill o'u teuluoedd cyn iddyn nhw ffoi. Teithiodd y rhan fwyaf o Reich yr Almaen ar drên ac yna mewn cwch (gan adael yr Iseldiroedd fel arfer a chyrraedd Harwich yn Essex), ond hedfanodd eraill mewn awyren.

Trefnwyd y cludiant gan sefydliadau ar y Cyfandir a gan y Refugee Children's Movement, sefydliad ymbarél yn y DU. Roedd rhai plant yn cael eu cefnogi gan grwpiau nad oedden nhw'n lldewig, fel Cymdeithas y Cyfeillion (Crynwyr). Nid oedd llywodraeth Prydain yn ariannu nac yn trefnu'r cludiant. Cawsant eu trefnu gan gannoedd o wirfoddolwyr. Nicholas Winton, bancwr Prydeinig, yw un o'r rhai mwyaf adnabyddus, ond roedd llawer o rai eraill. Helpodd Winton i achub 669 o blant trwy drefnu cludiant o Prague, Tsiecoslofacia.

Daeth llawer o blant i Gymru. Arhosodd rhai gyda pherthnasau, cafodd eraill eu maethu gan deuluoedd Cymreig. Rhwng 1939 ac 1941 cafodd tua 200 o blant lldewig ar ffo lety yng Nghastell Gwrych yn Abergele, yn ogystal â Chastell Llandochau ym Morgannwg. Yn ystod y rhyfel, cafodd plant eraill eu symud i Gymru o ardaloedd megis Llundain, neu Ysgol Gwladwriaeth Tsiecoslofacia yn Llanwrtyd, a leolid yn yr Abernant Lake Hotel rhwng 1943 ac 1945.

I gael rhagor o wybodaeth am y Kindertransport, gweler:

- <https://encyclopedia.ushmm.org/content/en/article/kindertransport-1938-40>
- <https://wp-research.aber.ac.uk/nsrefugeeswales/cy/hanes/plant-y-kindertransport/>



Llyfrau: Andrea Hammel, The Kindertransport: What Really Happened (Polity, 2024); Jennifer Craig-Norton, The Kindertransport: Contesting Memory (Indiana University Press, 2019); Vera K. Fast, Children's Exodus: A History of the Kindertransport (I.B. Taurus, 2011); Judith Tydor Baumel-Schwartz, Never Look Back: The Jewish Refugee Children in Great Britain, 1938-1945 (Purdue University Press, 2012)

Pwy sy'n Ffoadur?

[Pwy sy'n Ffoadur? Fideo UNHCR](#) – munud cyntaf

Diffiniad y Cenhedloedd Unedig (CU) o ffoadur:

'Ffoadur yw rhywun sydd wedi cael ei orfodi i ffoi rhag gwrthdaro neu erledigaeth ac sydd wedi croesi ffin ryngwladol i geisio diogelwch. Ni allant ddychwelyd i'w gwlad heb beryglu eu bywyd na'u rhyddid. Mae'n derm cyfreithiol sy'n cynnwys rhai amddiffyniadau y mae gan ffoaduriaid hawl iddynt.'

Uchel Gomisiynydd y Cenhedloedd Unedig dros Ffoaduriaid

Mae [ceisiwr lloches](#) yn cyfeirio at berson sy'n ceisio amddiffyniad (neu 'noddfa') gan lywodraeth arall nad yw ei gais wedi'i brosesu eto. Os yw ei gais yn llwyddiannus, rhoddir statws ffoadur iddo. Mae ceisio lloches yn hawl ddynol.



Ffynhonnell hanesyddol 1: Bywgraffiad byr o Dorothy Fleming

Ganed Dorothy Fleming yn Fienna, Awstria ym 1928. Daeth o deulu Iddewig dosbarth canol a bu'n byw bywyd hapus tan yr Anschluss ym 1938. Roedd yn ddeg oed pan anfonodd ei rhieni hi a'i chwaer ar Kindertransport i Brydain er mwyn dianc rhag y Natsiaid ym 1939. Treuliodd lawer o'r Ail Ryfel Byd gyda pherthnasau yng Nghaerdydd a mynychodd Ysgol Howell's. Yn wahanol i lawer o blant y Kindertransport, llwyddodd rhieni Dorothy i ffoi i Loegr. Daeth yn ddinesydd Prydeinig ym 1947 ac yn ddiweddarach cymhwysodd fel athrawes, gan sefydlu meithrinfa Iddewig gyntaf Sheffield, lle bu'n bennaeth tan ei hymddeoliad.

Ffynhonnell hanesyddol 2: [Clip Sain: Dorothy Fleming – Taith Kindertransport](#)



Ffynhonnell hanesyddol 3: Ffotograff o Dorothy Fleming a'i chwaer ym 1938



© O'r casgliad yng The National Holocaust Centre and Museum, DU

Dolen: <https://www.holocaust.org.uk/photograph-dorothy-fleming-and-sister-in-1938>



Ffynhonnell hanesyddol 4: Ffotograff o ffoaduriaid ifanc y Kindertransport cyntaf ar ôl iddynt gyrraedd Harwich, Essex, yn gynnar yn y bore ar 2 Rhagfyr 1938



Delwedd: Wikimedia Commons. Awdur delwedd: Anhysbys. Dogfen wreiddiol a ddelir gan Archifau Ffederal yr Almaen. Rhif Derbyniad: Bild 183-1987-0928-501.

Trwydded Creative Commons: <https://creativecommons.org/licenses/by-sa/3.0/de/deed.en>

Dolen: https://commons.wikimedia.org/wiki/File:Bundesarchiv_Bild_183-1987-0928-501,_England,_J%C3%BCdische_FI%C3%BCchtlingskinder.jpg



JHASW
CHIDC

AJR

Trawsgrifiadau

[Pwy sy'n Ffoadur? Fideo UNHCR](#) – munud cyntaf

Pobl gyffredin sy'n byw trwy gyfnodau anghyffredin yw ffoaduriaid. Mae gwrthdaro neu erledigaeth yn y wlad maent yn byw ynddo wedi eu rhoi mewn perygl. Does ganddynt ddim dewis arall ond ffoi a gadael eu gwlad i chwilio am loches. Mae hyn yn golygu gadael llawer ar eu holau. Un o'r penderfyniadau anoddaf y gall rhywun ei wneud erioed.

Felly, beth sy'n gwneud person yn ffoadur? Mae ffoaduriaid yn unigolion sydd bellach thu hwnt i'w gwlad eu hunain ac wedi croesi o leiaf un ffin. Gall gwrthdaro parhaus eu rhoi mewn perygl os byddant yn dychwelyd. Neu maen nhw mewn perygl o gael eu herlid oherwydd eu cenedligrwydd, hil, neu gyfeiriadedd rhywiol neu oherwydd eu bod nhw'n cysylltu â chrefydd, grŵp cymdeithasol, neu farn wleidyddol. Mae rhai yn cael eu carcharu neu eu niweidio'n gorfforol neu'n feddyliol.

[Clip Sain: Dorothy Fleming – Taith Kindertransport](#)

Nid ydym yn hollol siŵr sut wnaeth fy rhieni glywed am y Kindertransport, oherwydd nad oeddent "o gwmpas", ond rydym yn credu bod rhaid bod y gymuned Iddewig wedi defnyddio pobl ifanc fel Boy Scouts i fynd i gartrefi lle roeddent yn gwybod bod teuluoedd â phlant ac esbonio iddynt bod y cyfle hwn yn bodoli. Ac mewn gwirionedd, mae'r ffurflenni cais gennym ni – dau – un i mi, ac yn fuan wedi hynny, un ar gyfer fy chwaer a minnau.

[...]

Fe wyddoch bod pwyllgorau wedi cael eu ffurfio yma ledled y wlad – rhai Iddewig a rhai oedd ddim yn Iddewig – i geisio dod o hyd i lefydd i'r plant i fynd, gan bod y llywodraeth wedi dweud y byddent yn derbyn 10,000 o blant Iddewig a fyddai heb gydymaith gyda nhw.

[...]

Ac felly, roedd fy rhieni'n barod i'n hanfon ni, i'r wlad hon, yn hyderus y byddent yn ein dilyn.

[...]

Felly, cawsom le a mi wnaethom ni adael ar y 10fed o Ionawr am Loegr ac mewn gwirionedd, mae hwnnw'n stori ddramatig iawn. Fy rhieni... roeddem ni, roeddem ni'n cael un bag o eiddo yr un, ac fe aethon nhw â ni i'r Western Railway Station gyda'r nos – roedd hi wastad yn ystod y nos – ac roedden nhw'n gall iawn, roedden nhw'n ffarwelio, ac roedden nhw ar fin gadael. Ond roeddwn yn gwybod bod llawer o bobl wedi torri eu calonnau, a rhai hyd yn oed yn cipio eu plant yn ôl; nid oedden nhw'n medru gadael iddynt fynd. Ond fe aethon ni i mewn i gerbyd a oedd yn gymharol llawn o blant, a rhyngom ni, mi benderfynodd y rhai hyn y byddai'r rhai iau yn mynd ar y rac bagiau, a oedd wedi'i wneud o rwydenni; gan y byddent yn fwy cyfforddus i fyny yno. Felly, fe wnaethom ni roi fy chwaer fach i fyny yno, ac yn sydyn iawn, roedd hi'n sâl; a oedd yn ddefnyddiol iawn mewn gwirionedd, oherwydd roeddwn i'n brysur iawn dros yr hanner awr ganlynol, a dywedodd fy rhieni “edrych ar ôl dy chwaer, mae'n rhaid i ni fynd nawr, ac mi wnawn ni eich dilyn chi yn fuan. Ta-ra,” ac i ffwrdd â nhw, a oedd yn gall iawn. Ac yn wir, fe wnaethant ddilyn yn y pen draw.

Nawr, mi gychwynnodd y daith gyda sion ledled y trên y byddai'r Natsiaid yn dod i archwilio ein papurau a'n bagiau yn fuan, ar ôl cyrraedd y ffin. Os byddent yn dod o hyd i unrhyw beth na ddylem ni fod wedi dod gyda ni, efallai y byddem ni'n cael ein hanfon yn ôl neu byddai helynt. Ac nid sion oedden nhw, roedd y straeon yn wir, ac yn ein plith, roedd llanc ifanc tua un ar ddeg, a oedd wedi cael oriawr aur ei teulu gan ei dad – watsh boced – ac mi wnaeth banicio'n llwyr wrth feddwl y byddai'r Natsiaid yn darganfod y watsh. Felly, fe ollyngodd y watsh drwy agoriad cul mewn awyrydd, ac ni ddaethon nhw o hyd iddo, ac fe wnaethom ni groesi'r ffin ar ôl cael ein harchwilio ac fe wnaethom ni i gyd anadlu ochenaid fawr o ryddhad, oherwydd roedd yn frawychus iawn. Ac, wrth gwrs, o'r eiliad honno ymlaen roedd yn ffidlan o gwmpas yn ceisio cael yr oriawr allan, ac ni wnaeth lwyddo. Ac rwy'n cofio dweud wrtho, gyda fy holl ddoethineb yn ddeg mlwydd a hanner, “Edrycha, dim ond watsh ydy o. Bydd dy dad yn hapus iawn dy fod di wedi goroesi.” Ond roedd o mewn gofid enfawr. Rwy'n credu mai'r rheswm iddo gael yr watsh oedd yn rhannol fel, fel trysor teuluol, ond hefyd, byddai ei dad wedi meddwl efallai y gallai



werthu'r watsh ac efallai byw oddi ar y pres. Mae yna hefyd luniau o, o blant a ddaeth gyda ffidil – eto, efallai yn rhannol er mwyn eu gwerthu, yn rhannol i wneud bywoliaeth.



AJR